

CYNGOR BRO LLANLLWNI 9 TACHWEDD 2015

Cyng Dewi Davies (Cadeirydd)
Eirlys Owen (Clerc)

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 09 Tachwedd 2015 am 8.00yh.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

PLISMONA

Cafwyd trafodaeth ar ddiogelwch yn gyffredinol. Cyflwynodd Eleri Bonning wybodaeth bod cynllun cyflymdra cymunedol wedi ei drefnu gan yr heddlu yn yr ardal. Pe byddai unrhyw gymdeithas o fewn y pentref â diddordeb i ymuno â'r heddlu i wlyo cyflymder y traffig dylid cysylltu ag Alice James.

DIWRNOD HWYL 11 GORFFENNAF 2015

Derbyniwyd llythyr o ddiolch ar ran y tair cymdeithas gan Gymdeithas Rien i ac Athrawon Ysgol Llanllwni.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

ADNODDAU CHWARAE

Penderfynwyd cysylltu â Ian Edwards i drefnu bod archwiliad o'r adnoddau yn cael ei wneud tua Mis Mawrth 2016.

CAIS AM GRANT LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU

Yr oedd y Clerc wedi derbyn llythyr i gadarnhau nad oedd y cais wedi bod yn llwyddianus eleni.

GWEFAN LLANLLWNI

Yr oedd y Clerc i wneud ymholiadau pellach.

TYLLAU YN YR HEWL

Glennydd - Cwmeri.

Fferm Talardd – Aberceiliog.

Ffynonddrain – Gwarcwm.

Cysylltu â Stuart Quick.

GWAELOD RHIW CILRICED

Penderfynwyd cysylltu gan fod angen gosod peipen yn fwy o faint i dderbyn dŵr.

TORRI CLAWDD

Pendderi – Prysg.

Penderfynwyd cysylltu am y tyllau yn yr hewl, torri'r clawdd a gwaelod rhiw Cilriced a nodi hefyd bod angen cael cyfarfod i adolygu cyflwr yr hewl yn gyffredinol yn y pentref, ac yn enwedig y canlynol: Felin Gelli, Gelli Deg, Pentop–Gwarallt, Tan-y-bryn â Bryn-hedd.

GOLEUADAU

Y gwaith wedi'i gwblhau.

Penderfynwyd cefnogi Ambiwylans Awyr Cymru, Marie Curie, British Red Cross, Shelter Cymru.

Y GINIO FLYNYDDOL

Penderfynwyd y byddai'r ginio yn cael ei chynnal yn Belle Vue ar nos Wener 15 Ionawr 2016.

C FFI LLANLLWNI:

Penderfynwyd llongyfarch y clwb ar y llwyddiant yn eisteddfod y clybiau yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 11 Ionawr 2016 am 8yh.